

## Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

### Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Questions to the Minister for Health and Social Services
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon  
Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Questions to the Minister for Health and Social Services

#### Gorwario ar Gyllidebau Ymddiriedolaethau'r GIG Budget Overspends in NHS Trusts

**Q13 Alun Cairns:** Will the Minister make a statement on budget overspends in NHS trusts? OAQ0796(HSS)

**C13 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am orwario ar gyllideb ymddiriedolaethau'r GIG? OAQ0796(HSS)

**The Minister for Health and Social Services (Brian Gibbons):** As at the end of January, eight out of the 14 NHS trusts were forecasting that they would have overspends against their breakeven targets in 2005-06. These trusts are currently preparing recovery plans to address any underlying problems and to recover any overspends that they make in 2005-06.

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Ar ddiwedd mis Ionawr yr oedd wyth o'r 14 ymddiriedolaeth GIG yn rhagweld y byddent wedi gorwario yn erbyn eu targedau mantoli yn 2005-06. Ar hyn o bryd, mae'r ymddiriedolaethau hyn yn paratoi cynlluniau adfer er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw broblemau sylfaenol ac adennill unrhyw arian a orwariwyd yn 2005-06.

#### Gwasanaethau Awtistiaeth Autism Services

**Q14 Val Lloyd:** Will the Minister make a statement on autism services in Wales? OAQ0757(HSS)

**C14 Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wasanaethau awtistiaeth yng Nghymru? OAQ0757(HSS)

**Brian Gibbons:** The commissioning of services for people with autism is the responsibility of local health boards and local authorities. The Welsh Assembly Government is fully committed to consulting in the spring on the draft autism spectrum disorder action plan, which is an all-age and cross-sector plan.

**Brian Gibbons:** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol a'r awdurdodau lleol yw comisiynu gwasanaethau ar gyfer pobl ag awtistiaeth. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal ymgynghoriad yn y gwanwyn ar gynllun gweithredu drafft anhwylder yn y sbectwm awtistig, sef cynllun pob oed a thraws-sector.

### **Hybu Ymchwil Feddygol Encouraging Medical Research**

**Q15 Val Lloyd:** What is the Welsh Assembly Government doing to encourage medical research? OAQ0756(HSS)

**Brian Gibbons:** The Wales Office of Research and Development for Health and Social Care develops research and development policy, in consultation with partners, to reflect the priorities of the Welsh Assembly Government. WORD commissions and directly funds research and development activity and contract manages projects and initiatives to ensure that the highest standards are met.

**C15 Val Lloyd:** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hybu ymchwil feddygol? OAQ0756(HSS)

**Brian Gibbons:** Mae Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn datblygu polisi ymchwil a datblygu, mewn ymgynghoriad â phartneriaid, i adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r swyddfa yn comisiynu ac yn ariannu gweithgarwch ymchwil a datblygu yn uniongyrchol ac yn rheoli prosiectau a mentrau drwy gontract er mwyn sicrhau'r safonau uchaf.

### **Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon Questions to the Minister for Culture, Welsh Language and Sport**

#### **Twristiaeth Ddiwylliannol Cultural Tourism**

**C7 David Lloyd:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i hybu twristiaeth ddiwylliannol yng Nghymru? OAQ0684(CWS) [W] *Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae strategaeth twristiaeth ddiwylliannol Bwrdd Croeso Cymru yn cynnig fframwaith o weithgareddau i hybu twristiaeth drwy gyfrwng diwylliant unigryw Cymru. Sefydlwyd y bartneriaeth twristiaeth ddiwylliannol, sy'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol, er mwyn rhoi cynllun gweithredu'r strategaeth ar waith. Cynlluniwyd y strategaeth i godi ymwybyddiaeth am Gymru fel cyrchfan twristiaeth ddiwylliannol.

**Q7 David Lloyd:** What is the Minister doing to promote cultural tourism in Wales. OAQ0684(CWS) [W] *Transferred for Written answer by the Minister for Economic Development and Transport*

**The Minister for Economic Development and Transport (Andrew Davies):** The Wales Tourist Board's cultural tourism strategy provides a framework for action to promote tourism through Wales's unique culture. A cultural tourism partnership that encompasses key stakeholders has been established to implement the strategy's action plan, which is designed to raise the profile of Wales as a cultural tourism destination.

#### **Cynlluniau i Anrhydeddu Arwyr Cymru ym maes Chwaraeon Plans to Honour Wales' Sporting Heroes**

**Q14 Jocelyn Davies:** What plans has the Minister to honour Wales's sporting heroes? OAQ0705(CWS)

**The Minister for Culture, Welsh Language**

**C14 Jocelyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i anrhydeddu arwyr Cymru ym maes chwaraeon? OAQ0705(CWS)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg**

**and Sport (Alun Pugh):** Wales honours its sporting heroes through the UK honours system and it is open to any individual or organisation to nominate a worthy individual for consideration of an honour in the New Year or birthday honours lists.

**a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae Cymru yn anrhydeddu arwyr ym maes chwaraeon drwy system anrhydeddau'r DU ac mae croeso i unrhyw unigolyn neu sefydliad enwebu unigolyn teilwng i'w ystyried am anrhydedd yn y rhestr anrhydeddau Blwyddyn Newydd neu'r rhestr anrhydeddau pen-blwydd.

### **Cefnogaeth Ariannol i'r Eisteddfod Genedlaethol Financial Support for the National Eisteddfod**

**Q15 Ieuan Wyn Jones:** What recent discussions has the Minister had regarding the Welsh Assembly Government's financial support for the National Eisteddfod? OAQ0702(CWS)

**C15 Ieuan Wyn Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cynnal yn ddiweddar ynghylch cefnogaeth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i'r Eisteddfod Genedlaethol? OAQ0702(CWS)

**Alun Pugh:** I have had no personal discussions since I announced to the Culture, Welsh Language and Sport Committee in January that the National Eisteddfod will receive £458,000 this year from the Assembly Government. That is a considerable amount, which will help the Eisteddfod with its continued programme of modernisation and stabilisation.

**Alun Pugh:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau personol ers i mi gyhoeddi i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon ym mis Ionawr y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn derbyn £458,000 eleni gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae hwn yn swm sylweddol a fydd o gymorth i'r Eisteddfod gyda'i rhaglen barhaol o foderneiddio a sefydlogi.